Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2022 Rhif 895 (Cy. 192) (C. 59)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 12) 2022

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf").

Mae'r Ddeddf yn sefydlu fframwaith statudol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn disodli'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu.

Daw'r darpariaethau a restrir yn erthygl 3 i rym ar 1 Medi 2022 mewn perthynas â phersonau penodol. Mae'r Gorchymyn yn gwneud hyn drwy eithrio o'r cychwyn hwnnw bersonau sy'n dod o fewn categori a nodir yn erthygl 4 ar 1 Medi 2022. Mae'r categorïau sydd wedi eu heithrio yn cynnwys y rheini sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol a'r rheini sy'n ymwneud â'r fframwaith statudol presennol. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd (*gweler* erthygl 2).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn(**1**):

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 2 i 3 (yn rhannol) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| | 1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)(**2**) |
| | | O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)(**3**) |
| | | O.S. 2021/1245 (W. 317) (C. 70) |
| Adran 4 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116)( C. 12) |
| | 1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68) |
| | | O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69) |
| | | O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 5 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 6 (yn rhannol) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116)(C. 12) |
| | 1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68) |
| | | O.S. 2021/1244 (Cy. |

(**1**) *Gweler* Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022 (O.S. 2022/891 (Cy. 188) (C. 55)), Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022 (O.S. 2022/892 (Cy. 189) (C. 56)), Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 10) 2022 (O.S. 2022/893 (Cy. 190) (C. 57)), Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 11) 2022 (O.S. 2022/894 (Cy. 191) (C. 58)), Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 13 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022 (O.S. 2022/896 (Cy. 193) (C. 60)), Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 14 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022 (O.S. 2022/897 (Cy. 194) (C. 61)) a Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 15) 2022 (O.S. 2022/898 (Cy. 195) (C. 62)) sy'n dwyn i rym ddarpariaethau at ddibenion penodol ar yr un dyddiad â'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Diwygiwyd gan O.S. 2021/1428 (Cy. 369) (C. 80).

(**3**) Diwygiwyd gan O.S. 2021/1428 (Cy. 369) (C. 80).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| | | 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 7 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116)(C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 8 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adrannau 9 i 14 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 15 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 16 (yn rhannol)<br>(yn llawn) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)(**1**) |
| Adrannau 17 i 20 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 21 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. |

(**1**) Diwygiwyd gan O.S. 2021/735 (Cy. 184) (C. 34).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| | 1 Ionawr 2022 | 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adrannau 22 i 31 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316)(C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 32 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adrannau 33 i 35 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116)(C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 36 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 37 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 38 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 39 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Adrannau 40 i 44 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 45 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 46 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 47 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adrannau 48 i 49 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 50(1), (4) a (5) (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 50(1), (2) a (3) (yn llawn) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adrannau 51 i 53 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 54 (yn rhannol)<br>(yn llawn) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| Adran 55 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 56 (yn rhannol)<br>(yn llawn) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 56(1) | 4 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 56(4) i (6) | 4 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adrannau 57 i 58 | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 59 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 60 | 4 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 61 | 4 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 62 | 4 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adrannau 63 i 64 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 65 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 66 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| | | O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adran 67 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adrannau 68 i 69 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Adrannau 70 i 73 | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 74 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 75 (yn rhannol)<br>(yn llawn) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 76 (yn rhannol)<br>(yn llawn) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 77 (yn rhannol)<br>(yn llawn) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adrannau 78 i 81 | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 82 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 83 (yn rhannol)<br>(yn llawn) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 84 | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 85 (yn rhannol)<br>(yn llawn) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adrannau 86 i 90 | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 91 (yn | 2 | O.S. 2020/1182 (Cy. |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| rhannol)<br>(yn llawn) | Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 92 (yn rhannol)<br>(yn llawn) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adrannau 93 i 94 | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 95 (yn rhannol)<br>(yn llawn) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Adran 96 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 1 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116)(C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 2(1), 2(2)(b) a 2(3) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 3 | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 4(1), 4(2) i 4(8), 4(9), 4(10), 4(13) i 4(18), 4(19)(b), 4(20), 4(21), 4(23) i 4(29), 4(32)(a)(i) a (ii), 4(32)(b)<br>(yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 4(9) (i’r graddau y mae’n hepgor adrannau 333(1ZA), | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| 333(2) i 333(6) a 334 i 335), 4(12), 4(19)(a), 4(22), 4(30)(a)(ii), 4(30)(b), 4(31), 4(32)(a)(iii), 4(33)(a), 4(33)(b) (i'r graddau y mae'n hepgor diffiniadau penodol), 4(33)(d), 4(33)(e) a 4(33)(g) | | |
| Yr Atodlen, paragraff 6(d)(v), 6(f), 6(g), 6(j)(i), 6(l)(i), 6(l)(iii), 6(n)(ii) (i'r graddau y mae'n hepgor paragraff 11 o Atodlen 2), a 6(t) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 7 (yn rhannol) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| | 1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68) |
| | | O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69) |
| | | O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 8 (yn rhannol) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| | 1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68) |
| | | O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69) |
| | | O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraffau 9 a 10 | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 11(a) (yn rhannol) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| | 1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68) |
| | | O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69) |
| | | O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 11(b) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, | 1 Medi | O.S. 2021/373 (Cy. |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| paragraff 12(a) (yn rhannol) | 2021<br>1 Ionawr 2022 | 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 12(b) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 13 | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 14(1) i (3) (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 14(1) a 14(4) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 15(1) a 15(3) i 15(4) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraffau 17 a 18 | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 19(1), (2), (3), (5)(a) i (d), (5)(e)(i), (5)(f) a (6) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 19(1), (4) a (5)(g) ac (h) (yn rhannol) (yn llawn) | 2 Tachwedd 2020<br>1 Medi 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33)<br>O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 19(1), (5)(e)(ii) (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 20 | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 21(1), (2)(a)(i) a (2)(b)(ii) (yn | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68) |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| rhannol) | | O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 21(1) ac 21(b)(i) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 22 (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 23(1), 23(3)(a) i (c) a (5) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) |
| Yr Atodlen, paragraff 23(1) a (4) (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 24(1) a 24(3) a (6)(a) (yn rhannol) | 1 Medi 2021<br>1 Ionawr 2022 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)<br>O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68)<br>O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69)<br>O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70) |
| Yr Atodlen, paragraff 24(1), 24(2), (5) a (6)(b) ac (c) | 1 Medi 2021 | O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)(**1**) |

(**1**) Diwygiwyd gan O.S. 2021/735 (Cy. 184) (C. 34).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2022 Rhif 895 (Cy. 192) (C. 59)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 12) 2022

*Gwnaed* *16 Awst 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 100(3) a (4) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 12) 2022.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "anhawster dysgu" yr un ystyr â "learning difficulty" yn—

(i) adran 312(2)(**2**) o Ddeddf 1996—

(aa) mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru ond nid plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol brif ffrwd yn Lloegr,

(bb) mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, fel pe bai "in the area of a local

(**1**) 2018 dccc 2.

(**2**) Diwygiwyd gan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 59 a pharagraffau 1 a 6 o Atodlen 2, gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6), adran 82 a pharagraffau 1 ac 11 o Atodlen 3, gan Orchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/1158), erthygl 5 a pharagraff 7 o Atodlen 2, gan Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), adran 57, paragraff 23 o Atodlen 7 ac Atodlen 8.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

authority in Wales" wedi ei hepgor,

(ii) adran 20 o Ddeddf 2014 mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol brif ffrwd yn Lloegr;

mae i "asesiad o anghenion AIG" yr un ystyr ag "EHC needs assessment" yn adran 36(2) o Ddeddf 2014;

mae i "awdurdod lleol" yr un ystyr â "local authority" yn adran 579(**1**) o Ddeddf 1996;

mae i "cynllun AIG" yr un ystyr ag "EHC plan" yn adran 37(2)(**2**) o Ddeddf 2014;

mae i "darpariaeth addysgol arbennig" yr un ystyr â "special educational provision" yn—

(iii) adran 312(4) o Ddeddf 1996—

(aa) mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru ond nid plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol brif ffrwd yn Lloegr,

(bb) mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru fel pe bai "in relation to a child in the area of a local authority in Wales" wedi ei hepgor,

(iv) adran 21 o Ddeddf 2014 mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol brif ffrwd yn Lloegr;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**3**);

ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Plant a Theuluoedd 2014(**4**);

mae i "disgybl cofrestredig" yr un ystyr â "registered pupil" yn adran 434(**5**) o Ddeddf 1996;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018;

---

(**1**) Amnewidiwyd y diffiniad o "local authority" gan Orchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/1158), erthygl 3.

(**2**) Diwygiwyd gan Ddeddf Gofal 2014 a Gorchymyn Deddf Plant a Theuluoedd 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2015 (O.S. 2015/914), erthygl 2 a pharagraff 97 o'r Atodlen.

(**3**) 1996 p. 56.

(**4**) 2014 p. 6.

(**5**) Diwygiwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31), adran 140 a pharagraff 111 o Atodlen 30 a chan Orchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/1158), erthygl 5 a pharagraff 7(3) o Atodlen 2.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae i "oedran ysgol gorfodol" yr un ystyr â "compulsory school age" yn adran 8(**1**) o Ddeddf 1996;

mae i "perchennog" yr un ystyr â "proprietor" yn adran 579 o Ddeddf 1996;

ystyr "Rheolau'r Tribiwnlys" ("*Tribunal Rules*") yw Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012(**2**);

ystyr "Tribiwnlys" ("*Tribunal*") yw Tribiwnlys Addysg Cymru(**3**);

mae i "yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru" yr un ystyr ag ""in the area" of a local authority in Wales" yn adran 579(3B)(**4**) o Ddeddf 1996;

mae i "yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr" yr un ystyr ag ""in the area" of a local authority in England" yn adran 579(3A)(**5**) o Ddeddf 1996;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw unrhyw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu unrhyw ysgol arbennig gymunedol nad yw wedi ei sefydlu mewn ysbyty o fewn ystyr Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**6**);

mae i "ysgol brif ffrwd" yr un ystyr â "mainstream school" yn adran 83(2) o Ddeddf 2014.

(3) At ddibenion y Gorchymyn hwn dyfernir yn derfynol ar apêl—

(a) os caiff penderfyniad ei wneud gan dribiwnlys neu lys ar yr apêl, a

(b) os caniateir gwneud cais i adolygu'r penderfyniad neu os caniateir ei apelio ymhellach, a daw'r cyfnod (neu bob un o'r cyfnodau) ar gyfer gwneud hynny i ben heb fod cais am adolygiad wedi ei wneud neu apêl bellach wedi ei dwyn.

(4) Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys i berson y cychwynnwyd darpariaethau'r Ddeddf mewn perthynas ag ef gan Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021(**7**) neu Orchymyn Deddf

(**1**) Diwygiwyd adran 8 gan adran 52 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44).
(**2**) O.S. 2012/322 (Cy. 53).
(**3**) Arferai Tribiwnlys Addysg Cymru gael ei alw'n Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. *Gweler* adran 91 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
(**4**) Mewnosodwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6), adran 82 a pharagraffau 1 a 59 o Atodlen 3 a diwygiwyd gan adran 95 o'r Ddeddf.
(**5**) Mewnosodwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6), adran 82 a pharagraffau 1 a 59 o Atodlen 3 a diwygiwyd gan adran 95 o'r Ddeddf.
(**6**) 1998 p. 31.
(**7**) O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12) a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/735 (Cy. 184) (C. 34) ac O.S. 2021/938 (Cy. 214) (C. 49).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 7) 2021(**1**).

**Ystyr anghenion addysgol arbennig a nodwyd**

**2.** Mae gan blentyn “P” “anghenion addysgol arbennig a nodwyd” at ddibenion y Gorchymyn hwn os oes gan P anhawster dysgu a nodwyd gan berchennog neu awdurdod lleol sy’n galw am wneud darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer P.

**Y darpariaethau sy’n dod i rym ar 1 Medi 2022**

**3.** Daw’r darpariaethau a ganlyn o’r Ddeddf i rym ar 1 Medi 2022 ac eithrio mewn perthynas â pherson sy’n dod o fewn unrhyw un neu ragor o’r paragraffau yn erthygl 4 ar 1 Medi 2022—

(a) adrannau 2 i 4;

(b) adrannau 6 i 14;

(c) adrannau 17 i 36;

(d) adran 38;

(e) adrannau 40 i 44;

(f) adrannau 47 i 49;

(g) adran 50(1) at ddibenion y darpariaethau ym mharagraff (h);

(h) adran 50(4) i (5);

(i) adrannau 51 i 53;

(j) adran 55;

(k) adran 59;

(l) adrannau 63 i 66;

(m) adrannau 68 i 69;

(n) adran 96 at ddibenion y darpariaethau ym mharagraff (o);

(o) yn yr Atodlen—

(i) paragraff 1;

(ii) paragraff 4(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraffau (iii) i (xi);

(iii) paragraff 4(2) i 4(6);

paragraff 4(7) i’r graddau nad yw’r

(**1**) O.S. 2021/1245 (Cy. 317) (C. 70).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

paragraff wedi cael ei ddiddymu mewn perthynas â’r plentyn(**1**)

(iv) paragraff 4(8) i 4(9);

(v) paragraff 4(10);

(vi) paragraff 4(13) i 4(18);

(vii) paragraff 4(19)(b);

(viii) paragraff 4(20) a 4(21);

(ix) paragraff 4(23) i 4(29);

(x) paragraff 4(32)(a)(i) a (ii) a pharagraff 4(32)(b);

(xi) paragraff 7;

(xii) paragraff 8;

(xiii) paragraff 11(a);

(xiv) paragraff 12(a);

(xv) paragraff 14(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xvii);

(xvi) paragraff 14(2) a (3);

(xvii) paragraff 19(1) at ddiben y ddarpariaeth yn is-baragraff (xix);

(xviii) paragraff 19(5)(e)(ii);

(xix) paragraff 21(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xxi);

(xx) paragraff 21(2)(a)(i) a (2)(b)(ii);

(xxi) paragraff 22;

(xxii) paragraff 23(1) at ddiben y ddarpariaeth yn is-baragraff (xxiv);

(xxiii) paragraff 23(4);

(xxiv) paragraff 24(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xxvi);

(xxv) paragraff 24(3) a (6)(a).

**4.** Person—

(a) sy’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol;

(b) sydd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd;

(c) y mae awdurdod lleol wedi cyflwyno hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 323 o Ddeddf 1996 ac nad yw’r asesiad wedi

(**1**) Mae paragraff 4(7) (“y ddarpariaeth”) wedi ei ddiddymu gan baragraff 75 o Atodlen 2 i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (dsc 4) (“Deddf 2021”). Fodd bynnag, mae’r ddarpariaeth wedi ei harbed gan Reoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Darpariaeth Drosiannol a Darpariaeth Arbed) 2022 (O.S. 2022/111 (Cy. 39)) mewn perthynas â phlentyn neu ddisgybl y darperir addysg iddo o dan yr hen gwricwlwm (h.y. nad yw Deddf 2021 wedi cychwyn mewn perthynas ag ef). Effaith y ddarpariaeth arbed honno yw bod paragraff 4(7) o’r Atodlen i’r Ddeddf yn parhau mewn grym hyd nes y darperir addysg o dan Ddeddf 2021 i’r disgybl neu’r plentyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cychwyn ac nad oes hysbysiad wedi ei roi o dan adran 323(6) o Ddeddf 1996;

(d) y mae cais wedi ei wneud mewn perthynas ag ef o dan adran 329 neu 329A o Ddeddf 1996 am asesiad o dan adran 323 o Ddeddf 1996 ac nad yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu pa un ai i asesu ai peidio;

(e) y mae cais wedi ei wneud mewn perthynas ag ef o dan adran 329 neu 329A o Ddeddf 1996 am asesiad o dan adran 323 o Ddeddf 1996 a bod yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chydymffurfio â'r cais ac—

(i) nad yw'r amser y mae rhaid i apêl o dan adran 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 gael ei dwyn ynddo o dan Ran B o Reolau'r Tribiwnlys wedi dod i ben;

(ii) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys o dan adran 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni; neu

(iii) dyfarnwyd yn derfynol ar apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol drefnu asesiad, ac nad yw'r asesiad hwnnw wedi cychwyn;

(f) y mae awdurdod lleol yn ymgymryd ag asesiad o anghenion addysgol mewn perthynas ag ef o dan adran 323 o Ddeddf 1996;

(g) y mae awdurdod lleol yn bwriadu peidio â gwneud datganiad mewn perthynas ag ef yn dilyn asesiad ac—

(i) nad yw'r amser y mae rhaid i apêl o dan adran 325(2) o Ddeddf 1996 gael ei dwyn ynddo o dan Ran B o Reolau'r Tribiwnlys wedi dod i ben;

(ii) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys o dan adran 325(2) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni;

(iii) dygwyd apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 325(2) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a dyfarnwyd yn derfynol arni a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol—

(aa) gwneud a chynnal datganiad ac nad yw'r broses o wneud y datganiad wedi cychwyn, neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(bb) ailystyried ei benderfyniad ac nad yw'r ailystyried hwnnw wedi cychwyn;

(h) y mae asesiad mewn perthynas ag ef o dan adran 331 o Ddeddf 1996 yn mynd rhagddo;

(i) y mae cais wedi ei wneud mewn perthynas ag ef i awdurdod lleol i sicrhau asesiad o anghenion AIG o dan adran 36(1) o Ddeddf 2014 ac nad yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y cais hwnnw o dan adran 36(3);

(j) y mae awdurdod lleol wedi penderfynu, o dan adran 36 o Ddeddf 2014, beidio â sicrhau asesiad AIG mewn perthynas ag ef ac—

(i) nad yw'r cyfnod ar gyfer dilyn cyfryngu mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw o dan adran 52 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(ii) bod cyfryngu o dan adran 55 o Ddeddf 2014 yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw;

(iii) bod tystysgrif gyfryngu wedi ei dyroddi o dan adran 55(4) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ac nad yw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(iv) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(a) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni;

(v) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(a) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a dyfarnwyd yn derfynol arni a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol drefnu asesiad neu ailasesiad, ac nad yw'r asesiad hwnnw neu'r ailasesiad hwnnw wedi cychwyn;

(k) y mae awdurdod lleol wedi cyflwyno hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 36(7) o Ddeddf 2014 ei fod yn ystyried sicrhau asesiad o anghenion AIG ac—

(i) nad yw'r asesiad wedi cychwyn,

(ii) bod yr asesiad yn mynd rhagddo, neu

(iii) nad oes hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan adran 36(9) o Ddeddf 2014;

(l) y mae awdurdod lleol wedi penderfynu o dan adran 36(9) o Ddeddf 2014 nad yw'n angenrheidiol gwneud darpariaeth addysgol arbennig yn unol â chynllun AIG mewn perthynas ag ef ac—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) nad yw'r cyfnod ar gyfer dilyn cyfryngu mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw o dan adran 52 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(ii) bod cyfryngu o dan adran 55 o Ddeddf 2014 yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw;

(iii) bod tystysgrif gyfryngu wedi ei dyroddi o dan adran 55(4) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ac nad yw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(iv) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(b) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni;

(v) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(b) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a dyfarnwyd yn derfynol arni a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol—

(aa) gwneud a chynnal cynllun AIG ac nad yw'r broses o wneud y cynllun AIG wedi cychwyn, neu

(bb) ailystyried ei benderfyniad ac nad yw'r ailystyried hwnnw wedi cychwyn;

(m) y mae awdurdod lleol wedi penderfynu o dan adran 45 o Ddeddf 2014 nad yw'n angenrheidiol mwyach gynnal cynllun AIG mewn perthynas ag ef ac—

(i) nad yw'r cyfnod ar gyfer dilyn cyfryngu mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw o dan adran 52 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(ii) bod cyfryngu o dan adran 55 o Ddeddf 2014 yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw;

(iii) bod tystysgrif gyfryngu wedi ei dyroddi o dan adran 55(4) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ac nad yw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(iv) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(f) o

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni.

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
16 Awst 2022